**Rhif: 54146**

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Canllawiau Gweithredol ynghylch y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Diwygiedig)

19 Chwefror 2026

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN ddigiol

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddiwygio'r Canllawiau Gweithredol ynghylch y Mesur Teithio gan Ddysgwyr. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ar 19 Mis Chwefror 2026

## Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac iaith amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Trafnidiaeth a Chysylltedd Digidol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: bws@llyw.cymru

@LIC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

**Copïau ychwanegol**

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.
Dolen i'r ddogfen ymgynghori: Canllawiau Gweithredol ynghylch y Mesur Teithio gan Ddysgwyr 2025: ymgynghoriad | LLYW.CYMRU

# Cynnwys

**Cefndir** 1

**Cyd-destun a strwythur yr adroddiad** 2

**Crynodeb o'r ymatebion** 3

C1. A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau wedi'u diweddaru yn cyd-fynd â'r datblygiadau deddfwriaethol sydd wedi digwydd ers i'r canllawiau gael eu cyhoeddi'n wreiddiol yn 2014 ac yn ymhelaethu arnynt? 3

C2 — A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau yn rhoi eglurder ar ddarpariaeth drafnidiaeth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol? 5

C3 - A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau ar Adran 10 (hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg) o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 wedi'u cryfhau? 7

C4 — A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau ar Adran 11 (hybu dulliau teithio cynaliadwy) o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 wedi'u cryfhau? 8

C5 — Cydweithio a gweithio mewn partneriaeth: A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau'n adlewyrchu rhai o'r arferion da sydd wedi'u nodi ledled Cymru i annog cydweithio a gweithio mewn partneriaeth rhwng partneriaid cyflawni? 10

C6 — Canllawiau ar yr amser teithio hiraf: A ydych chi'n cytuno y bydd cynnwys canllaw cyffredinol ar yr amser teithio hiraf yn helpu i gynyddu cysondeb ar draws awdurdodau lleol? 12

C7 — Ymgorffori egwyddorion cyffredinol CCUHP: A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau wedi'u cryfhau i ymgorffori 4 egwyddor gyffredinol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn? 14

C8 — A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynghylch rhan 1 o'r canllawiau (Canllawiau gweithredol)? 15

C9 — A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynghylch rhan 2 (Asesu 'llwybr sydd ar gael' i'r ysgol)? 17

C10 — Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynghylch rhan 3 (Rheoliadau Gwybodaeth Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009)? 18

C11 — A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynghylch rhan 4 (Diogelwch ar gludiant i ddysgwyr)? 19

C12 — A ydych chi'n cytuno bod y diweddariad i'r canllawiau yn glir ac yn hawdd ei ddeall? 21

C13 — Beth yn eich barn chi fyddai effeithiau tebygol y canllawiau drafft ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig yn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau positif? Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol? 21

C14 — Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r canllawiau er mwyn: 23

• cael effeithiau positif neu effeithiau mwy positif ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu 23

• liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? 23

C15 — Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol.  Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch y blwch isod i'w nodi: 24
**Y camau nesaf** **26**
**Atodiad A – Rhestr o sefydliadau a ymatebodd** **27**

# Cefndir

Gwneir y Canllawiau Gweithredol ynghylch y Mesur Teithio gan Ddysgwyr o dan adran 15 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (“y Mesur”) sy’n galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi cyfarwyddiadau a chanllawiau statudol. Rhaid i awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a chyrff llywodraethu Sefydliadau Addysg Bellach roi sylw i’r canllawiau wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Mesur.

Cyhoeddwyd fersiwn flaenorol y canllawiau yn 2014. Ers hynny, cynhaliwyd dau adolygiad o deithio gan ddysgwyr yng Nghymru, a oedd yn nodi nifer o feysydd lle’r oedd angen diwygio’r canllawiau.

Arweiniodd yr adolygiad diweddaraf at gyhoeddi Adroddiad Argymhellion Teithio gan Ddysgwyr 2023. Argymhellwyd y dylai gwaith ddechrau ar unwaith ar ddiweddaru’r canllawiau sy’n cefnogi’r fframwaith deddfwriaethol sy’n sail i ddarparu gwasanaethau teithio gan ddysgwyr yng Nghymru.

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau ar ail argraffiad drafft y Canllawiau Gweithredol ynghylch y Mesur Teithio gan Ddysgwyr. Mae canllawiau drafft 2025 yn gwneud newidiadau i argraffiad cyntaf y canllawiau a gyhoeddwyd yn 2014.

Roedd y rhan fwyaf o’r gwelliannau hyn yn adlewyrchu newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi sydd wedi digwydd ers i’r canllawiau ddod i rym neu’n egluro gofynion yn ymwneud â deddfwriaeth a oedd ar waith bryd hynny.

Ein prif nodau wrth ddiwygio’r canllawiau hyn yw sicrhau bod y canllawiau:

- yn cyd-fynd â'r datblygiadau deddfwriaethol sydd wedi digwydd ers i'r canllawiau gael eu cyhoeddi'n wreiddiol yn 2014 ac yn ymhelaethu arnynt
- yn rhoi eglurder ynghylch y ddarpariaeth trafnidiaeth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)
- yn cryfhau’r canllawiau ar Adran 10 (hybu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg) ac Adran 11 (hyrwyddo teithio cynaliadwy) y Mesur
- yn adlewyrchu rhai o'r arferion da sydd wedi'u nodi ledled Cymru i annog cydweithio a gweithio mewn partneriaeth rhwng partneriaid cyflawni.

Dechreuodd proses ymgynghori ar y canllawiau diwygiedig ar 11 Mehefin am gyfnod o 12 wythnos. Roedd y cyfnod ymgynghori i fod i ddod i ben ar 3 Medi 2025. Ym mis Awst, nodwyd gwall cyfieithu yn fersiwn Gymraeg y ddogfen ganllawiau. Cywirwyd y cyfieithiad, cyhoeddwyd nodyn byr ar dudalen we’r ymgynghoriad yn egluro’r gwall ac yn cadarnhau bod y gwall wedi cael ei gywiro. Yna cafodd y dyddiad cau ar gyfer y broses ymgynghori ei ymestyn wythnos (tan 10 Medi 2025) i sicrhau bod cyfathrebu ehangach yn bosibl.

Roedd yr wythnos ychwanegol yn cyd-daro â dechrau tymor yr ysgol, ac arweiniodd hyn at fwy o sylw yn y cyfryngau ac ymwybyddiaeth o’r ymarfer ymgynghori. Felly, manteisiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru ar y cyfle hwn i alluogi mwy o bobl i gymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori a chyhoeddodd ddatganiad ysgrifenedig yn cyfleu ei benderfyniad i ymestyn dyddiad cau’r ymgynghoriad tan 28 Tachwedd 2025.

## Cyd-destun a strwythur yr adroddiad

Cafwyd cyfanswm o 311 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Cafwyd 283 o ymatebion ar-lein ac anfonwyd 28 o ymatebion pellach drwy'r e-bost. Roedd 303 o ymatebion yn Saesneg, 7 yn Gymraeg a 2 yn ddwyieithog. Ymatebodd y 22 awdurdod lleol drwy ymateb Cymdeithas Swyddogion Cydgysylltu Trafnidiaeth (ATCO). Cyflwynodd chwe awdurdod ymateb unigol ychwanegol.

Mae rhestr o'r holl sefydliadau a roddodd ganiatâd i'w henwau gael eu cyhoeddi ar gael yn Atodiad A.

Roedd yr ymgynghoriad yn cyd-daro â rhoi newidiadau ar waith i bolisi cludiant i'r ysgol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Yn ôl dadansoddiad cod post, roedd 230 o ymatebion - 74% o'r holl ymatebion - wedi dod o ardal awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf. Mae gwaith dadansoddi'n dangos bod y clystyru daearyddol hyn wedi dylanwadu ar y teimlad cyffredinol ac wedi tynnu sylw at faterion lleol - yn enwedig o ran newidiadau i drothwyon milltiroedd, asesiadau "llwybrau sydd ar gael", pryderon diogelwch, a darpariaeth trafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd y cymoedd. Oherwydd hyn, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno dadansoddiad o'r canfyddiadau ar gyfer y cwestiynau cytuno/anghytuno yn eu cyfanrwydd (311 o ymatebwyr) ac ar gyfer grŵp 'ffocws' (81 o ymatebwyr) sy'n eithrio ymatebion Rhondda Cynon Taf; mae crynodeb o'r 'materion allweddol' a godwyd yn ogystal â'r cwestiynau penagored yn ystyried yr holl sylwadau.

Dylid nodi efallai na fydd rhai cyfansymiau'n cyfateb yn union oherwydd talgrynnu neu atebion anghyflawn.

# Crynodeb o’r ymatebion

## C1. A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau wedi'u diweddaru yn cyd-fynd â'r datblygiadau deddfwriaethol sydd wedi digwydd ers i'r canllawiau gael eu cyhoeddi'n wreiddiol yn 2014 ac yn ymhelaethu arnynt?

**Dadansoddiad o’r ymateb**

| Grŵp | Cyfanswm yr ymatebion | Cytuno (%) | Anghytuno (%) | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno (%) | Nifer y sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyffredinol | 311 | 9.7 | 65.3 | 19.6 | 159 |
| Ffocws | 81 | 22 | 29 | 20 | 33 |

Mae’r ymatebion cyffredinol (311) yn dangos mai dim ond 9.7% oedd yn cytuno bod y canllawiau’n rhoi eglurder, gyda mwyafrif sylweddol, 65.3% yn anghytuno a 19.6% yn niwtral. Mae hyn yn dangos canfyddiad cryf nad yw’r canllawiau diwygiedig yn cyflawni’r nod hwn.

Mae’r grŵp ffocws (81 o ymatebwyr) yn cyflwyno barn fwy cytbwys, gyda 22% yn cytuno, 29% yn anghytuno, ac 20% yn niwtral. Mae hyn yn awgrymu, o’i gymharu â’r sampl cyffredinol, bod y grŵp ffocws yn llai pegynol, a bod safbwyntiau’n cael eu dosbarthu’n fwy cyfartal.

Gwnaeth 159 o ymatebwyr sylwadau ar gwestiwn 1 o’i gymharu â 33 yn y grŵp ffocws.
Er bod y duedd gyffredinol yn awgrymu anfodlonrwydd, mae’r grŵp ffocws yn dangos mwy o amrywioldeb ac agwedd ychydig yn fwy cadarnhaol.

**Themâu allweddol**
Mae’r prif themâu a godwyd o’r **holl** ymatebion wedi’u nodi isod. Mae effaith ganfyddedig y newidiadau a wnaed gan awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf i’w gweld yng ngeiriad llawer o’r ymatebion.

### Diogelwch plant a throthwyon pellter
Mae llawer o ymatebwyr yn cydnabod pwysigrwydd meini prawf clir ar gyfer hawliau a throthwyon amser teithio ac yn croesawu ymdrechion i egluro’r canllawiau ar y pwyntiau hyn. Fodd bynnag, mae consensws cryf nad yw’r trothwy pellter presennol o dair milltir a’r amser teithio arfaethedig o hyd at 75 munud bob amser yn adlewyrchu’r realiti y mae plant a phobl ifanc yn ei wynebu. Mae hyn yn arbennig o wir lle mae peryglon traffig, dim llawer o groesfannau, palmentydd cul neu ddim palmentydd o gwbl, tir serth, amodau tywydd heriol, neu lai o oriau golau dydd. Mae llawer yn awgrymu y byddai mwy o bwyslais ar asesu risgiau llwybrau unigol yn sicrhau bod penderfyniadau’n cael eu teilwra i amgylchiadau lleol, gan wella diogelwch a chynnig hyblygrwydd lle bo angen.

### Tegwch a sicrwydd mynediad—addysg cyfrwng Cymraeg
Mae’n amlwg bod ymatebwyr yn cefnogi mesurau sy’n gwarantu ac yn diogelu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg. Maent yn annog ystyriaeth bellach o sut gall y canllawiau adlewyrchu nodau Cymraeg 2050 a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn well; yn ogystal â Deddf y Gymraeg ac Addysg 2025 a roddwyd ar waith yn ddiweddar.

### Effaith ar deuluoedd difreintiedig a dysgwyr ag ADY

Mae ymatebwyr yn tynnu sylw at yr heriau sy'n wynebu aelwydydd incwm isel, cymunedau gwledig a chymunedau'r cymoedd, a dysgwyr ag ADY. Cydnabyddir y gall rhai teuluoedd, yn enwedig y rheini heb gar, wynebu pwysau ariannol a logistaidd. Awgrymodd ymatebwyr y dylid egluro a chryfhau'r cymorth ar gyfer cludiant i ddysgwyr ag ADY hyd at 25 oed, a sicrhau bod y canllawiau'n adlewyrchu tystiolaeth broffesiynol ac anghenion unigol, gan gynnig hyblygrwydd a chyllid priodol i leihau anghydraddoldebau.

### Presenoldeb, llesiant a chanlyniadau addysgol

Cytunir yn gyffredinol y dylai llesiant, presenoldeb a chyrhaeddiad fod wrth galon penderfyniadau polisi. Mae ymatebwyr yn annog y canllawiau i ganolbwyntio cymaint â phosibl ar y plentyn, gan ystyried parodrwydd datblygiadol ar gyfer teithio'n annibynnol ac effaith teithiau hir ar flinder, gorbryder ac ymgysylltu. Mae sicrhau bod trefniadau teithio yn cefnogi presenoldeb rheolaidd a chanlyniadau addysgol cadarnhaol yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth.

### Cyd-fynd â deddfwriaeth, hawliau a diogelu

Mae ymatebwyr yn gwerthfawrogi cysondeb agos â deddfwriaeth allweddol, fel Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("Deddf ADY 2018"), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ("CCUHP"), Safonau'r Gymraeg a Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 (roedd nifer o sylwadau'n argymell y dylid cryfhau'r cyfeiriad at Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025). Mae galw adeiladol am i'r canllawiau gryfhau ymhellach ystyriaethau diogelu, peidio â gwahaniaethu a hawliau dynol, gan gynnwys dulliau gweithredu clir ar gyfer darpariaeth ffydd.

### Eglurdeb, cysondeb a'r "loteri cod post"

Mae'r awydd am ganllawiau clir a chyson yn cael ei rannu'n eang. Mae ymatebwyr yn tynnu sylw at fanteision dull mwy cenedlaethol o deithio gan ddysgwyr, yn enwedig ar gyfer darpariaeth ôl-16, er mwyn lleihau amrywiadau rhanbarthol ac er mwyn sicrhau tegwch. Mae awgrymiadau cadarnhaol i wella'r sail dystiolaethol ar gyfer enghreifftiau o arferion gorau ac i fynd i'r afael ag unrhyw bethau y canfyddir eu bod yn gwrth-ddweud ei gilydd yn y canllawiau.

### Pwysau cyllido a risg gyfreithiol

Mae rhanddeiliaid yn gwerthfawrogi'r angen i reoli costau cynyddol trafnidiaeth ac yn cydnabod cymhlethdod trefniadau cyllido. Mae rhai'n dadlau dros gyllid cenedlaethol digonol i sicrhau nad yw teithio'n rhwystr rhag dysgu, ac i leihau'r risg o heriau cyfreithiol, yn enwedig o ran cludiant i ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion ffydd. Ystyrir bod cydweithio a deialog yn allweddol i fynd i'r afael â'r heriau hyn mewn ffordd adeiladol.

### Teithio cynaliadwy/llesol - seilwaith a chanlyniadau anfwriadol

Mae cefnogaeth gref i amcanion sero net a theithio llesol, gydag ymatebwyr yn annog buddsoddi mewn seilwaith diogel, trafnidiaeth gyhoeddus ddibynadwy, a chymorth ymarferol fel lle i storio beiciau ac ystafelloedd sychu. Mae llawer yn credu, gyda'r seilwaith cywir, y gellir symud tuag at deithio cynaliadwy, gan helpu i leihau nifer y ceir a ddefnyddir, yn ogystal â thagfeydd, yn unol â nodau cynaliadwyedd.

**Cwmpas cymhwysedd**
Mae ymatebwyr yn cynnig safbwyntiau adeiladol ynghylch cymhwysedd, gyda rhai'n cynnig y dylai trafnidiaeth am ddim flaenoriaethu'r rheini sydd heb ddewisiadau amgen neu sydd ag ADY. Ar y llaw arall, mae eraill yn dadlau dros gefnogaeth barhaus i ffafriaeth sy'n seiliedig ar ddewis fel ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion ffydd (a rhai nad ydynt yn rhai ffydd). Cydnabyddir yr angen am ddull gweithredu teg sy'n cefnogi amrywiaeth ddiwylliannol a ffydd heb greu anghysondeb ledled Cymru.

**Gweithredu ymarferol a thystiolaeth o arferion gorau**
Mae awydd cadarnhaol am fecanweithiau gweithredu cliriach, gan gynnwys asesiadau trafnidiaeth cadarn mewn Cynlluniau Datblygu Unigol, tystiolaeth dryloyw o arferion gorau, a datblygu templedi asesu risg a safonau wedi'u cydgynhyrchu. Mae ymatebwyr o'r farn bod y camau hyn yn allweddol i wella goruchwyliaeth a sicrhau darpariaeth gyson o ansawdd uchel.

**Materion gweithredol a realiti'r farchnad**
Mae ymatebwyr yn cynnig awgrymiadau ymarferol i fynd i'r afael â rhwystrau gweithredol, fel cysoni amserlenni bysiau cyhoeddus ag oriau ysgol, cefnogi teithiau ar sawl bws, a sicrhau nad yw cydymffurfio â gofynion hygyrchedd cerbydau gwasanaeth cyhoeddus yn cael effaith niweidiol ar fynediad. Mae brwdfrydedd dros ehangu mentrau fel y cynlluniau peilot tocynnau am £1 a'u hymestyn i'r rheilffyrdd, ar yr amod bod nifer o ddarparwyr yn cymryd rhan. Mae colegau a rhanddeiliaid eraill yn galw am fwy o gydlynu ar draws awdurdodau lleol a gweithredwyr i wella gwydnwch cyffredinol ac amlder y rhwydwaith trafnidiaeth.

## C2 — A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau yn rhoi eglurder ar ddarpariaeth drafnidiaeth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol?

**Dadansoddiad o'r ymateb**

| Grŵp | Cyfanswm yr ymatebion | Cytuno (%) | Anghytuno (%) | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno (%) | Nifer y sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyffredinol | 311 | 15.5 | 59.2 | 20.6 | 68 |
| Ffocws | 81 | 25.9 | 33.3 | 25.9 | 26 |

Pan ofynnwyd a yw'r canllawiau'n rhoi eglurder, mae'r ymatebion cyffredinol (311) yn dangos bod 15.5% yn cytuno, a bod mwyafrif clir, 59.2%, yn anghytuno ac 20.6% ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Mae hyn yn dangos nad yw'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn credu bod y canllawiau'n darparu'r eglurder disgwyliedig.

Mae'r grŵp ffocws (81 o ymatebwyr) yn cyflwyno barn fwy cytbwys, gyda 25.9% yn cytuno, 33.3% yn anghytuno, a 25.9% yn aros yn niwtral, gan awgrymu llai o begynnu ac agwedd gymharol fwy cadarnhaol yn yr is-grŵp hwn.

Roedd nifer y sylwadau a gafwyd yn wahanol gyda 68 o sylwadau i gyd o'i gymharu â 26 gan y grŵp ffocws, gan adlewyrchu ymgysylltiad cymedrol â'r cwestiwn hwn gan y grŵp ffocws.
Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo nad yw'r canllawiau'n ddigon clir, mae'r grŵp ffocws yn dangos mwy o amrywioldeb a chyfran uwch o gytundeb.

**Themâu allweddol**
Er bod cynnydd yn cael ei gydnabod, mae ymatebwyr am weld y canllawiau'n gwella'n barhaus er mwyn cefnogi dysgwyr ag ADY ymhellach. Mae argymhellion ar gyfer canllawiau cliriach, asesiadau pwrpasol, mwy o gyllid ac adnoddau, ac integreiddio mwy cadarn â chynlluniau ADY a gweithdrefnau apelio yn adlewyrchu ymrwymiad ar y cyd i ddarparu atebion trafnidiaeth dibynadwy, teg ac effeithiol. Bydd parhau i gydweithio yn hanfodol er mwyn sicrhau darpariaeth deg a phriodol o ran trafnidiaeth i bob dysgwr ag ADY.
Dyma'r meysydd penodol a drafodwyd yn y sylwadau:

### Potensial i gryfhau eglurder a chysondeb
Mae ymatebwyr yn pwysleisio'r angen am ganllawiau clir a chyson sy'n ymwneud â darparu cludiant i ddysgwyr ag ADY. Er y cydnabyddir bod eglurder yn flaenoriaeth barhaus, mae nifer o ymatebwyr eisiau sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch ac yn cael ei defnyddio'n unffurf ar draws awdurdodau lleol. Mae eglurder o'r fath yn galluogi teuluoedd a gweithwyr proffesiynol i dywys prosesau'n fwy hyderus ac yn cadarnhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi'n briodol.

### Blaenoriaethu anghenion unigol
Mae ymatebwyr yn gyson o blaid canllawiau sy'n cydnabod ac yn ymateb i ofynion penodol pob dysgwr a theulu, yn enwedig y rheini sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig neu economaidd ddifreintiedig. Mae datblygu asesiadau a chynlluniau trafnidiaeth unigol, a gynhyrchir ar y cyd â theuluoedd a gweithwyr proffesiynol, yn cael ei ystyried yn well na dulliau safonol.

### Gwella integreiddio Cynlluniau Datblygu Unigol a gweithdrefnau apelio
Mae cryn gefnogaeth i gael rhagor o eglurhad ynghylch integreiddio trafnidiaeth yng Nghynllun Datblygu Unigol dysgwr, a hygyrchedd cymorth i deuluoedd sy'n ceisio asesiad ychwanegol. Ystyrir bod canllawiau wedi'u targedu'n well yn y meysydd hyn yn hanfodol er mwyn grymuso teuluoedd a gwella canlyniadau dysgwyr.

### Sicrhau digon o gyllid ac adnoddau
Mae'r adborth yn tynnu sylw at rôl hanfodol digon o gyllid ac adnoddau wrth ddarparu trafnidiaeth ADY effeithiol, yn enwedig ar gyfer unigolion 19-25 oed (i gyd-fynd â Deddf ADY 2018). Bydd gwell ffocws yn y maes hwn yn helpu awdurdodau lleol a sefydliadau addysgol i gynnal safonau uchel o ddarpariaeth, gan leihau'r pwysau ar deuluoedd a sefydliadau partner.

### Cydnabod cynnydd a chyd-fynd â deddfwriaeth
Mae nifer o ymatebwyr yn dweud eu bod yn gwerthfawrogi'r gwelliannau sy'n amlwg yn y canllawiau wedi'u diweddaru, gan nodi eu bod yn fwy eglur ac yn cyd-fynd â deddfwriaeth berthnasol, fel Deddf ADY 2018. Mae blaenoriaethu trafnidiaeth gynhwysol a hygyrch a chydnabod Cynlluniau Datblygu Unigol ac ysgolion a enwir yn cael ei werthfawrogi, ac anogir mireinio'n barhaus.

### Ystyriaethau ychwanegol
Mae ymatebwyr yn tynnu sylw at faterion pellach, gan gynnwys diogelwch llwybrau cerdded, cysoni deddfwriaeth ADY a chanllawiau trafnidiaeth (yn enwedig ar gyfer dysgwyr ôl-16), a'r angen am gyfathrebu clir ynghylch anghenion ffiniol neu heb eu diagnosio. Mae dyhead

cyffredin am fwy o dryloywder a chydweithio ymysg awdurdodau lleol, ysgolion a theuluoedd.

## C3 - A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau ar Adran 10 (hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg) o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 wedi'u cryfhau?

**Dadansoddiad o'r ymateb**

| Grŵp | Cyfanswm yr ymatebion | Cytuno (%) | Anghytuno (%) | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno (%) | Nifer y sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyffredinol | 311 | 11.3 | 62.1 | 22.5 | 91 |
| Ffocws | 81 | 27.2 | 34.6 | 28.4 | 44 |

Mae'r ymatebion cyffredinol (311) yn dangos mai dim ond 11.3% oedd yn cytuno bod y canllawiau ar Adran 10 y Mesur wedi cael eu cryfhau, tra bod mwyafrif sylweddol, 62.1%, yn anghytuno a 22.5% ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Mae hyn yn dangos bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn nad oedd y canllawiau wedi cael eu cryfhau.

Mae'r grŵp ffocws (81 o ymatebwyr) yn cyflwyno barn fwy cytbwys, gyda 27.2% yn cytuno, 34.6% yn anghytuno, ac 28.4% yn niwtral, gan awgrymu llai o begynnu ac agwedd gymharol fwy cadarnhaol yn yr is-grŵp hwn.

Roedd nifer y sylwadau a gafwyd yn wahanol iawn hefyd, gydag 91 o sylwadau i gyd o'i gymharu â 44 gan y grŵp ffocws, sy'n adlewyrchu ymgysylltiad llawer cryfach gan y grŵp ffocws.

Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu, er bod y gwaith cryfhau yr anelwyd amdano yn cael ei ystyried yn annigonol ar y cyfan, mae'r grŵp ffocws yn dangos mwy o amrywioldeb a chyfran uwch o gytundeb.

**Themâu allweddol**

Cafwyd amrywiaeth eang o adborth ystyriol ac adeiladol i'r ymgynghoriad gan y rhai a gyflwynodd sylwadau. Ar y cyfan, mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn adlewyrchu ymrwymiad ar y cyd i gryfhau mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg a chydnabyddiaeth o'r cynnydd a wnaed yn y canllawiau diwygiedig. Nododd ymatebwyr gyfleoedd ymarferol i egluro, atgyfnerthu a chefnogi'r gwaith o roi Adran 10 ar waith ymhellach.

### Cydnabod cynnydd a chanllawiau cryfach

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cydnabod bod y canllawiau diwygiedig yn gam ymlaen o ran egluro'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru i hyrwyddo mynediad at addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ystyriwyd bod y canllawiau'n gyfle i atgyfnerthu ymrwymiad y llywodraeth i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a chefnogi nodau Cymraeg 2050. Croesawyd y cyfeiriadau penodol at ddyletswyddau statudol, Safonau'r Gymraeg, a'r cysondeb â strategaethau cenedlaethol fel Cymraeg 2050 fel datblygiadau cadarnhaol. Awgrymodd ymatebwyr bwysleisio'r datblygiadau deddfwriaethol mwy diweddar sef Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

**Eglurder a chysondeb wrth roi ar waith**
Tynnodd ymatebwyr sylw at yr angen am ragor o eglurder mewn rhai rhannau o'r canllawiau, yn enwedig ynghylch y diffiniad o'r "ysgol addas agosaf" a'r meini prawf ar gyfer hawl i drafnidiaeth. Roedd galw am weithredu'n fwy cyson ar draws awdurdodau lleol i sicrhau mynediad teg, ynghyd ag awgrymiadau am enghreifftiau ac astudiaethau achos cliriach i gefnogi'r gweithredu.

**Darpariaeth trafnidiaeth a dewis rhieni**
Nododd ymatebwyr, er bod y canllawiau'n annog hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg, bod rhwystrau ymarferol yn parhau i fodoli—yn enwedig lle mae llai o ysgolion cyfrwng Cymraeg a phellteroedd teithio hirach o'i gymharu â darpariaeth cyfrwng Saesneg.
Pwysleisiodd sawl ymateb na ddylai polisi trafnidiaeth roi teuluoedd sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg o dan anfantais yn anfwriadol, a bod cefnogaeth deg yn hanfodol i gynnal dewis rhieni ac uchelgeisiau iaith Llywodraeth Cymru.

**Cadernid cyfreithiol a dyletswyddau statudol**
Mynegodd rhai cyfranwyr bryder, heb newidiadau statudol i'r Mesur ei hun, y gallai'r canllawiau cryfach barhau i fod yn agored i her gyfreithiol neu ddehongliad anghyson. Roedd cefnogaeth i sicrhau bod dyletswyddau statudol yn fwy eglur, yn enwedig mewn perthynas â thrafnidiaeth ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg, er mwyn rhoi mwy o sicrwydd i deuluoedd ac awdurdodau lleol.

**Cynhwysiant a thegwch**
Roedd pwysigrwydd sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg ar gael i bob dysgwr, gan gynnwys y rheini ag ADY a'r rheini mewn ardaloedd gwledig neu ddifreintiedig, yn thema a oedd yn codi dro ar ôl tro.

**Monitro, gwerthuso a gwelliant parhaus**
Roedd cefnogaeth i fonitro a gwerthuso effaith y canllawiau'n barhaus, gyda golwg ar wella'n barhaus a rhannu arferion effeithiol ledled Cymru.

## C4 — A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau ar Adran 11 (hybu dulliau teithio cynaliadwy) o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 wedi'u cryfhau?

**Dadansoddiad o'r ymatebion**

| Grŵp | Cyfanswm yr ymatebion | Cytuno (%) | Anghytuno (%) | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno (%) | Nifer y sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyffredinol | 311 | 7.4 | 77.5 | 10.3 | 100 |
| Ffocws | 81 | 22.2 | 45.7 | 18.5 | 42 |

Mae'r ymatebion cyffredinol (311) yn dangos mai dim ond 7.4% oedd yn cytuno bod y canllawiau wedi'u cryfhau, gyda mwyafrif sylweddol, 77.5%, yn anghytuno a 10.3% ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Mae hyn yn dangos canfyddiad cryf bod angen rhagor o waith i gryfhau'r canllawiau.

Mae'r grŵp ffocws (81 o ymatebwyr) yn cyflwyno barn fwy cytbwys, gyda 22.2% yn cytuno, 45.7% yn anghytuno, a 18.5% yn niwtral, gan awgrymu llai o begynnu ac agwedd gymharol fwy cadarnhaol yn yr is-grŵp hwn.

Mae nifer y sylwadau a gafwyd, sef 100 o sylwadau i gyd o'i gymharu â 42 gan y grŵp ffocws, yn adlewyrchu ymgysylltiad llawer cryfach yn y grŵp ffocws.

Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ystyried nad yw'r canllawiau wedi'u cryfhau, mae'r grŵp ffocws yn dangos mwy o amrywioldeb a chyfran uwch o gytundeb. Mae mwyafrif helaeth y sylwadau i'r cwestiwn hwn, a adlewyrchir yn y themâu allweddol, yn dangos cryfder y teimladau yn sgil y newidiadau a wnaed ar lefel leol gan awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf.

**Themâu Allweddol**

Er bod cefnogaeth eang i'r pwyslais cynyddol ar deithio cynaliadwy yn y canllawiau diwygiedig, mae ymatebwyr yn pwysleisio'r angen am ddull gweithredu pragmatig a chynhwysol.

**Cydnabod canllawiau cryfach a chysoni â pholisïau**

Yn y sylwadau, roedd llawer o ymatebwyr yn cydnabod bod y canllawiau diwygiedig ar Adran 11 wedi cael eu cryfhau, yn enwedig o ran eu cysondeb â pholisïau ehangach Llywodraeth Cymru fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Gwelwyd bod y canllawiau'n darparu hierarchaeth gliriach o opsiynau teithio cynaliadwy ac yn nodi disgwyliadau ar gyfer cydweithredu rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion. Roedd y pwyslais ar gynaliadwyedd amgylcheddol a hyrwyddo trafnidiaeth gyhoeddus a llesol yn cael ei groesawu'n eang.

**Rhwystrau ymarferol rhag gweithredu**

Er gwaethaf cefnogaeth eang i egwyddor teithio cynaliadwy, tynnodd ymatebwyr sylw at heriau ymarferol sylweddol. Nododd llawer fod y canllawiau'n tybio bod opsiynau teithio cynaliadwy ar gael, nad ydynt efallai'n bodoli mewn ardaloedd gwledig neu led-wledig oherwydd trafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig, seilwaith cerdded/beicio annigonol, a thopograffi heriol. Roedd pryderon bod atebion yn aml yn adlewyrchu realiti trefol ac efallai na fydd modd eu trosglwyddo i leoliadau gwledig.

Cyfeiriodd llawer o ymatebwyr hefyd at yr hinsawdd yng Nghymru; nodwyd bod diogelwch llwybrau cerdded/beicio, a diffyg cyfleusterau (er enghraifft, ar gyfer sychu dillad gwlyb) yn rhwystrau i deithio llesol, yn enwedig i ddysgwyr iau neu ddysgwyr mwy agored i niwed. Mynegodd ymatebwyr bryderon bod trafnidiaeth gyhoeddus yn aml yn annibynadwy, ddim yn rhedeg yn anaml, neu ddim ar gael ar adegau addas, gan ei gwneud yn anodd i deuluoedd ddibynnu ar y dulliau hyn ar gyfer teithio i'r ysgol.

**Effaith ar deuluoedd a chynhwysiant**

Er **nad** yw'r canllawiau diwygiedig yn gwneud unrhyw newidiadau i feini prawf hawliau statudol, mynegodd nifer o ymatebion bryder bod lleihau neu gael gwared ar gludiant i'r ysgol yn effeithio'n anghymesur ar deuluoedd incwm isel, y rheini sy'n byw ychydig o dan y trothwyon hawliau, a dysgwyr ag ADY. Roedd galw mawr am i ganllawiau fod yn gynhwysol a sicrhau nad yw nodau cynaliadwyedd yn cynyddu anghydraddoldeb nac allgáu yn anfwriadol. Tynnodd rhai sylw at y ffaith y gallai newidiadau mewn darpariaeth trafnidiaeth gael effaith negyddol ar fynediad at ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion ffydd, gan danseilio nodau polisi o bosibl i hyrwyddo'r llwybrau addysgol hyn.

**Canlyniadau anfwriadol: defnyddio mwy ar geir a mwy o dagfeydd**
Thema a gododd dro ar ôl tro oedd bod lleihau cludiant penodedig i'r ysgol, yn ymarferol, wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y ceir preifat sy'n cael eu defnyddio yn ogystal â thagfeydd a llygredd o amgylch ysgolion. Nododd ymatebwyr fod y canlyniad hwn yn groes i'r nodau cynaliadwyedd arfaethedig ac y gallai greu risgiau diogelwch newydd i blant.

**Yr angen am hyblygrwydd, atebion lleol a rhagor o gymorth**
Roedd consenswS bod angen hyblygrwydd ar awdurdodau lleol i addasu modelau teithio cynaliadwy i'w cyd-destunau penodol, gan gynnwys realiti cyllidebol a daearyddiaeth leol. Gofynnodd rhai ymatebwyr am gyngor mwy ymarferol, astudiaethau achos ac enghreifftiau—yn enwedig o gyd-destunau trefol a gwledig Cymru—i gefnogi gweithredu effeithiol, tra rhybuddiodd eraill y gall astudiaethau achos fod yn oddrychol ac yn gamarweiniol ac y gallant godi disgwyliadau rhieni.

Tanlinellwyd pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol, ysgolion a chymunedau, yn ogystal â'r angen am gyfathrebu ac ymgysylltu clir â rhieni a gofalwyr.

**Awgrymiadau adeiladol ar gyfer gwella**
Roedd awgrymiadau i gefnogi uchelgeisiau Adran 11 yn cynnwys caniatáu i blant ddefnyddio seddi sbâr ar gludiant presennol i'r ysgol i leihau teithiau mewn ceir.

Roedd ymatebwyr o blaid dull cytbwys sy'n ystyried cynaliadwyedd ac anghenion amrywiol dysgwyr, yn enwedig y rheini sydd ag anghenion ychwanegol neu sy'n byw mewn amgylchiadau heriol.

Roedd galw hefyd am fuddsoddiad parhaus mewn llwybrau teithio llesol diogel a hygyrch a thrafnidiaeth gyhoeddus ddibynadwy, yn ogystal ag ystyried y cyfyngiadau cyllido a wynebir gan awdurdodau lleol.

## C5 — Cydweithio a gweithio mewn partneriaeth: A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau'n adlewyrchu rhai o'r arferion da sydd wedi'u nodi ledled Cymru i annog cydweithio a gweithio mewn partneriaeth rhwng partneriaid cyflawni?

### Dadansoddiad o'r ymatebion

| Grŵp | Cyfanswm yr ymatebion | Cytuno (%) | Anghytuno (%) | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno (%) | Nifer y sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyffredinol | 311 | 4.8 | 68.2 | 20.6 | 67 |
| Ffocws | 81 | 13.6 | 40.7 | 33.3 | 33 |

Mae'r ymatebion cyffredinol (311) yn dangos mai dim ond 4.8% oedd yn cytuno bod y canllawiau yn rhoi eglurder, tra bod mwyafrif sylweddol, 68.2%, yn anghytuno ac 20.6% ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Mae hyn yn awgrymu bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn nad oedd y canllawiau yn cyflawni ei nodau.

Mae'r grŵp ffocws (81 o ymatebwyr) yn dangos dosbarthiad mwy cytbwys, gyda 13.6% yn cytuno, 40.7% yn anghytuno, a 33.3% yn aros yn niwtral, sy'n dangos llai o begynnu, er ei

fod yn dal i ddangos canfyddiad eang ymhlith yr is-grŵp hwn na fydd y canllawiau'n cyflawni eu nodau.
Mae nifer y sylwadau a gafwyd yn wahanol iawn hefyd, gyda 67 o sylwadau i gyd o'i gymharu â 33 gan y grŵp ffocws, sy'n adlewyrchu mwy o ymgysylltu ar draws y grŵp ffocws.

**Themâu allweddol**

Er bod y canllawiau diwygiedig yn cael eu cydnabod fel cam cadarnhaol tuag at feithrin cydweithio a gweithio mewn partneriaeth, mae ymatebwyr yn awyddus i weld mwy o fanylion, enghreifftiau mwy ymarferol, a mecanweithiau cryfach i sicrhau cysondeb a chynhwysiant. Drwy fynd i'r afael â'r meysydd hyn, mae'r ymatebwyr yn credu y gall y canllawiau gefnogi partneriaid cyflenwi yn well i wreiddio arferion da a sicrhau gwasanaethau trafnidiaeth sy'n deg ac o ansawdd uchel i ddysgwyr ledled Cymru.

**Cydnabod bwriad cydweithredol ac arferion da**

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cydnabod bod y canllawiau'n gwneud ymdrech amlwg i hyrwyddo cydweithio a gweithio mewn partneriaeth rhwng partneriaid cyflawni. Gwerthfawrogir cynnwys enghreifftiau cadarnhaol a chyfeiriadau at arferion gorau, yn enwedig lle mae'r rhain wedi'u hanelu at wella cysondeb a thegwch mewn gwasanaethau cludiant i ddysgwyr ledled Cymru. Ystyrir bod y pwyslais ar gyd-gynhyrchu, partneriaeth â'r trydydd sector, ac ymgysylltu â dysgwyr a'u teuluoedd yn gam i'r cyfeiriad cywir.

**Galw am fwy o fanylion ac enghreifftiau ymarferol**

Thema sy'n codi dro ar ôl tro yw'r awydd i rannu arferion da yn fwy manwl. Mae ymatebwyr yn awgrymu y byddai'r canllawiau'n elwa o gynnwys astudiaethau achos penodol neu enghreifftiau ymarferol fel atodiadau. Byddai hyn yn helpu partneriaid cyflawni i ddeall sut i wreiddio dulliau cydweithredol mewn ymarfer o ddydd i ddydd a sicrhau bod arferion da yn fwy na dim ond dyheadau a bod modd eu rhoi ar waith a'u hefelychu ar draws gwahanol awdurdodau lleol.

**Rhoi sylw i fylchau ac anghysondebau**

Mae nifer o sylwadau'n tynnu sylw at fylchau parhaus yn y ddarpariaeth, yn enwedig ar gyfer rhai grwpiau fel pobl ifanc 16 oed a 18 oed, dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg, a'r rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae pryder nad yw cydweithio bob amser yn gyson ar draws rhanbarthau, ac efallai nad yw rhai awdurdodau lleol yn ymgysylltu'n llawn â'r holl bartneriaid perthnasol, gan gynnwys ysgolion, rhieni a darparwyr trafnidiaeth. Mae ymatebwyr yn galw am fframweithiau cliriach, atebolrwydd ar y cyd, a mecanweithiau ar gyfer monitro cydweithio i sicrhau bod arferion da yn cael eu safoni yn hytrach nag yn amrywio.

**Pwysigrwydd partneriaeth gynhwysol a chytbwys**

Pwysleisia ymatebwyr bwysigrwydd sicrhau bod yr holl randdeiliaid—gan gynnwys ysgolion ffydd, ysgolion cyfrwng Cymraeg, a theuluoedd o gefndiroedd amrywiol—yn cael eu cynnwys yn rhagweithiol mewn trefniadau partneriaeth. Mae pryderon y gallai dull anghytbwys arwain at ymyleiddio neu ganlyniadau anfwriadol, fel awdurdodau lleol yn cael eu rhoi o dan bwysau gan grwpiau buddiant penodol. Anogir y canllawiau i nodi sut gellir sicrhau cydweithio cynhwysol, cytbwys a thryloyw.

**Cyfleoedd i wella ac awgrymiadau sy'n canolbwyntio ar atebion**

Er bod croeso cyffredinol i'r canllawiau, mae nifer o ymatebwyr yn cynnig awgrymiadau adeiladol ar gyfer gwella:

- Cyhoeddi astudiaethau achos o arferion gorau ochr yn ochr â’r canllawiau i gefnogi dysgu a dyblygu.
- Cryfhau mecanweithiau ar gyfer cydweithio ar draws sectorau, yn enwedig rhwng awdurdodau lleol, ysgolion, darparwyr trafnidiaeth, a’r trydydd sector.
- Sicrhau bod llais y dysgwr, yn enwedig y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn ganolog i brosesau ymgynghori ac adborth.
- Mynd i’r afael ag anghysondebau mewn ceisiadau polisi, fel trothwyon pellter cludiant a threfniadau dewisol, er mwyn lleihau loterïau cod post a hyrwyddo tegwch.

**Beirniadu’r arferion cyfredol yn adeiladol**
Nododd rhai ymatebwyr fod cydweithio yn aml yn anghyson neu heb ddigon o adnoddau, gydag achosion o weithio mewn seilos ac ymgysylltiad cyfyngedig â theuluoedd a chymunedau. Maent yn argymell bod y canllawiau’n symud y tu hwnt i ddatganiadau uchelgeisiol drwy ddarparu mesurau ymarferol y gellir gweithredu arnynt i gefnogi gweithio gwirioneddol mewn partneriaeth. Tynnir sylw hefyd at yr angen i fonitro a gwerthuso’n barhaus er mwyn sicrhau bod dulliau cydweithredol yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bob dysgwr.

## C6 — Canllawiau ar yr amser teithio hiraf: A ydych chi'n cytuno y bydd cynnwys canllaw cyffredinol ar yr amser teithio hiraf yn helpu i gynyddu cysondeb ar draws awdurdodau lleol?

**Dadansoddiad o’r ymatebion**

| Grŵp | Cyfanswm yr ymatebion | Cytuno (%) | Anghytuno (%) | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno (%) | Nifer y sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyffredinol** | 311 | 11.6 | 62.7 | 8.4 | 104 |
| **Ffocws** | 81 | 23.5 | 43.2 | 17.3 | 39 |

Pan ofynnwyd a fyddai cynnwys canllaw cyffredinol ar amser teithio hiraf yn helpu i wella cysondeb ar draws awdurdodau lleol, mae’r ymatebion cyffredinol (311) yn dangos mai dim ond 11.6% oedd yn cytuno, a bod mwyafrif clir, 62.7%, yn anghytuno ac 8.4% ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Mae hyn yn dangos nad yw’r rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn credu y bydd yr ychwanegiad hwn yn sicrhau mwy o gysondeb.

Mae’r grŵp ffocws (81 o ymatebwyr) yn cyflwyno barn fwy cytbwys, gyda 23.5% yn cytuno, 43.2% yn anghytuno, a 17.3% yn niwtral, gan awgrymu llai o begynnu ac agwedd gymharol fwy cadarnhaol yn yr is-grŵp hwn.

Cafwyd 104 o sylwadau gan ymatebwyr yn y grŵp cyffredinol o’i gymharu â 39 gan y grŵp ffocws, sy’n adlewyrchu ymgysylltiad a theimlad cryf ar gyfer y cwestiwn hwn.

Er bod y rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn amheus ynghylch effeithiolrwydd cynnwys canllaw cyffredinol ar yr amser teithio hiraf, mae’r grŵp ffocws yn dangos mwy o amrywioldeb a chyfran uwch o gytundeb.

**Themâu Allweddol**

### Cefnogaeth eang i gysondeb gyda chafeatau pwysig

Mae nifer o ymatebwyr yn cydnabod gwerth canllaw cyffredinol ar yr amser teithio hiraf fel cam ymlaen tuag at fwy o gysondeb ar draws awdurdodau lleol. Mae ymdeimlad cyffredinol y gall canllawiau clir helpu i safoni disgwyliadau ac arferion, gan leihau gwahaniaethau mewn darpariaeth rhwng ardaloedd. Fodd bynnag, mae'r gefnogaeth hon yn aml yn amodol ar gymhwyso'r canllawiau'n hyblyg ac yn sensitif i amgylchiadau lleol.

### Yr angen am hyblygrwydd a chyd-destun lleol

Thema sy'n codi dro ar ôl tro yw'r angen i'r canllawiau ystyried daearyddiaeth a demograffeg amrywiol Cymru. Mae ymatebwyr yn tynnu sylw at y ffaith bod ardaloedd gwledig, trefol a'r cymoedd yn wynebu heriau gwahanol iawn o ran seilwaith trafnidiaeth, amseroedd teithio, a mynediad at ysgolion. Mae llawer yn rhybuddio y gallai dull "un ateb i bawb" roi rhai grwpiau o dan anfantais yn anfwriadol, yn enwedig y rheini mewn ardaloedd gwledig, dysgwyr sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ysgolion ffydd, a'r rheini sydd ag ADY neu gyflyrau meddygol.

### Pryderon ynghylch yr amseroedd teithio hiraf

Mae pryder sylweddol bod yr amseroedd teithio hiraf arfaethedig - yn enwedig 75 munud bob ffordd ar gyfer dysgwyr ysgolion uwchradd - yn rhy hir i lawer o blant. Mae ymatebwyr yn cwestiynu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y ffigurau hyn ac yn cyfeirio at faterion sy'n ymwneud â'r effaith ar lesiant, dysgu a chymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. Mae nifer yn awgrymu y dylai amseroedd teithio fod yn fyrrach, yn enwedig i blant iau, ac y dylai'r canllawiau ystyried ffactorau fel tir, y tywydd a'r angen i gludo offer yn benodol.

### Pwysigrwydd anghenion a llesiant unigolion

Mae llawer o ymatebion yn pwysleisio na ddylai cysondeb ddigwydd ar draul anghenion dysgwyr unigol. Mae cefnogaeth gref i ganllawiau sy'n caniatáu eithriadau sy'n seiliedig ar asesiadau proffesiynol, yn enwedig ar gyfer plant ag ADY, anableddau neu gyflyrau iechyd. Mae ymatebwyr yn pwysleisio bod yn rhaid i lesiant, diogelwch a chynhwysiant barhau i fod yn ystyriaethau canolog.

### Gweithredu, monitro a'r gallu i orfodi

Mae rhai ymatebwyr yn mynegi pryder y gallai gwahanol awdurdodau ddehongli'r polisi, fel "canllaw" yn hytrach na gofyniad statudol, mewn ffordd anghyson. Mae galwadau am safonau cliriach, gorfodadwy, monitro rheolaidd, a phrosesau tryloyw ar gyfer gwneud eithriadau. Heb y rhain, mae perygl y gallai'r canllawiau ddod yn ymarfer "ticio blychau" yn hytrach nag yn offeryn ystyrlon ar gyfer tegwch.

### Ystyriaethau ymarferol ychwanegol

Mae ymatebwyr yn codi amrywiaeth o faterion ymarferol, gan gynnwys:

- Yr angen am opsiynau trafnidiaeth diogel, dibynadwy a fforddiadwy, yn enwedig mewn ardaloedd lle nad oes llawer o drafnidiaeth gyhoeddus.
- Pwysigrwydd ystyried amseroedd cerdded ar wahân i amseroedd teithio cyffredinol.
- Effaith polisi trafnidiaeth ar bresenoldeb, logisteg teulu, a chanlyniadau amgylcheddol.
- Yr angen am gyfathrebu ac ymgynghori clir â theuluoedd a chymunedau.

## C7 — Ymgorffori egwyddorion cyffredinol CCUHP: A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau wedi'u cryfhau i ymgorffori 4 egwyddor gyffredinol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn?

**Dadansoddiad o'r ymateb**

| Grŵp | Cyfanswm yr ymatebion | Cytuno (%) | Anghytuno (%) | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno (%) | Nifer y sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyffredinol | 311 | 9 | 62.7 | 11.6 | 96 |
| Ffocws | 81 | 23.5 | 43.2 | 19.8 | 39 |

Pan ofynnwyd a yw'r canllawiau wedi'u cryfhau i ymgorffori pedair egwyddor gyffredinol CCUHP, mae'r ymatebion cyffredinol (311) yn dangos mai dim ond 9% oedd yn cytuno, a bod mwyafrif clir, 62.7%, yn anghytuno ac 11.6% ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Mae hyn yn dangos nad yw'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn credu bod y canllawiau'n ymgorffori'r egwyddorion hyn.

Mae'r grŵp ffocws (81 o ymatebwyr) yn cyflwyno agwedd fwy cadarnhaol, gyda 23.5% yn cytuno, 43.2% yn anghytuno, a 19.8% yn aros yn niwtral, gan awgrymu llai o begynnu a mwy o hyder gan yr is-grŵp hwn yn y canllawiau.

Mae nifer y sylwadau a gafwyd, 96 gan y grŵp cyffredinol a 39 gan y grŵp ffocws, yn adlewyrchu ymgysylltiad cryf ac yn rhoi cipolwg gwerthfawr.

**Themâu allweddol**

Cydnabyddir bod y canllawiau'n gam cadarnhaol tuag at ymgorffori egwyddorion CCUHP, ac mae ymatebwyr yn credu bod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod yr egwyddorion hyn yn cael eu gwireddu'n llawn yn ymarferol. Roedd ymatebwyr yn credu y gellid datblygu'r canllawiau ymhellach drwy fynd i'r afael â'r bylchau a amlygwyd—yn enwedig o ran tegwch, diogelwch a chyfranogiad ystyrlon.

### Mae ymrwymiad i hawliau plant yn cael ei gydnabod, ond mae bylchau o ran gweithredu yn parhau

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cydnabod bod y canllawiau'n cyfeirio at CCUHP ac yn annog dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau. Gwerthfawrogir y bwriad i ymgorffori'r pedair egwyddor gyffredinol mewn polisi ac ymarfer. Fodd bynnag, thema sy'n codi dro ar ôl tro yw nad yw'r egwyddorion hyn yn cael eu cymhwyso'n gyson nac yn ystyrlon eto yng nghyd-destun penodol teithio gan ddysgwyr, yn enwedig o ran y disgwyliad y gall plant deithio ar eu pen eu hunain am hyd at dair milltir.

### Pryderon ynghylch peidio â gwahaniaethu a thegwch

Er nad yw'r canllawiau diwygiedig yn gwneud unrhyw newidiadau i hawliau, tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith y gallai dileu neu leihau darpariaeth cludiant i'r ysgol gael effaith anghymesur ar blant o deuluoedd incwm is, ardaloedd gwledig, y rhai ag ADY neu anableddau, a'r rhai sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ysgolion ffydd. Mae hyn yn codi pryderon ynghylch mynediad cyfartal at addysg a'r risg o wahaniaethu anuniongyrchol. Roedd nifer o sylwadau'n galw am fecanweithiau mwy cadarn i asesu a mynd i'r afael ag anghenion grwpiau agored i niwed, gan sicrhau nad oes unrhyw blentyn o dan anfantais oherwydd daearyddiaeth, statws economaidd-gymdeithasol, na ffactorau eraill.

### Lles pennaf y plentyn a diogelwch

Roedd nifer sylweddol o ymatebion yn cwestiynu a yw lles pennaf y plentyn yn cael ei flaenoriaethu, yn enwedig lle mae'n ymddangos bod penderfyniadau'n cael eu gyrru gan gost-effeithlonrwydd yn hytrach nag anghenion unigol. Codwyd pryderon ynghylch diogelwch a llesiant plant y disgwylir iddynt gerdded yn bell, yn enwedig mewn tywydd gwael neu ar hyd llwybrau sy'n cael eu hystyried yn anniogel. Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd asesiadau risg unigol trylwyr a'r angen i awdurdodau lleol ystyried priodoldeb datblygiadol a diogelwch trefniadau teithio.

Mae barn gref y gallai cael gwared ar y ddarpariaeth trafnidiaeth fygwth diogelwch corfforol, iechyd a datblygiad addysgol plant, yn enwedig y rheini sydd ag anghenion cymhleth neu sy'n gorfod defnyddio llwybrau cerdded anniogel. Pwysleisiodd ymatebwyr rwymedigaeth y llywodraeth i sicrhau bod pob plentyn yn gallu datblygu i'w lawn botensial mewn amgylchedd diogel a chefnogol.

### Parchu barn y plentyn

Er bod y canllawiau'n annog dysgwyr i gymryd rhan yn y broses ymgynghori ar gyfer unrhyw newidiadau polisi, teimlai llawer o ymatebwyr nad yw lleisiau plant yn cael eu clywed mewn achosion unigol ac nad oes unrhyw un yn gweithredu arnynt. Mae galw am brosesau cliriach i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu mynegi eu barn a'u bod yn cael eu hystyried, yn enwedig pan fyddant hwy neu eu teuluoedd yn credu bod trefniant teithio yn anniogel neu'n afresymol.

### Ffydd ac addysg cyfrwng Cymraeg

Nododd rhai ymatebion nad yw'r canllawiau'n mynd i'r afael yn llawn ag anghenion plant sy'n mynychu ysgolion ffydd neu ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mynegwyd pryderon ynghylch mynediad cyfartal at drafnidiaeth a'r potensial ar gyfer gwahaniaethu anuniongyrchol. Cafwyd awgrymiadau am ganllawiau cliriach a defnyddio pwerau dewisol yn gyson i gefnogi presenoldeb yn yr ysgolion hyn.

## C8 — A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynghylch rhan 1 o'r canllawiau (Canllawiau gweithredol)?

### Dadansoddiad o'r ymatebion

O'r 311 o unigolion a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad, rhoddodd 109 sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn penodol hwn. Mae'r nifer sylweddol o ymatebion yn awgrymu bod llawer o gyfranogwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cymell i rannu eu safbwyntiau, eu profiadau a'u hadborth adeiladol, gan gyfrannu gwybodaeth werthfawr i lywio'r gwaith o ddatblygu polisïau yn y dyfodol.

### Themâu allweddol

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn adlewyrchu ymrwymiad dwfn i sicrhau mynediad diogel, teg a chynaliadwy at addysg i bob dysgwr yng Nghymru. Er bod y canllawiau gweithredol yn darparu fframwaith gwerthfawr, mae awydd amlwg i fireinio ymhellach—yn enwedig o ran diogelwch, hyblygrwydd, cysondeb a chefnogaeth i grwpiau agored i niwed.

### Diogelwch a hygyrchedd cludiant i'r ysgol

Un o'r prif bryderon yw diogelwch plant y disgwylir iddynt gerdded yn bell i'r ysgol—hyd at dair milltir yn aml. Tynnodd ymatebwyr sylw at risgiau sy'n gysylltiedig â thywydd gwael, seilwaith annigonol i gerddwyr, a mwy o dagfeydd traffig ger ysgolion. Mae llawer yn teimlo nad yw'r canllawiau presennol yn mynd i'r afael yn ddigonol â realiti tirwedd Cymru,

gwahaniaethau trefol a gwledig, na pha mor agored i niwed yw dysgwyr iau ac ADY. Mae galw cryf i ddarpariaeth trafnidiaeth flaenoriaethu diogelwch, yn enwedig i'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd sydd â llwybrau heriol neu ddim llawer o opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus. Cafwyd galwadau cyson i ailedrych ar y trothwyon pellter statudol ac ymgorffori asesiadau o ddiogelwch ac addasrwydd llwybrau mewn ffordd fwy hyblyg, sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

Roedd ymatebwyr o'r farn y gallai mwy o gydweithio ag awdurdodau lleol i adolygu a gwella llwybrau cerdded ac opsiynau trafnidiaeth yn rheolaidd gefnogi mynediad diogel at addysg ymhellach.

### Effaith ar deuluoedd a chymunedau

Mae llawer o ymatebwyr yn mynegi pryder ynghylch effaith ymarferol y canllawiau ar deuluoedd sy'n gweithio, yn enwedig y rheini nad ydynt â cherbydau preifat neu drafnidiaeth gyhoeddus ddibynadwy. Ystyrir bod lleihau neu gael gwared ar gludiant i'r ysgol yn tarfu ar gyflogaeth, arferion teuluol, a llesiant cyffredinol. Mae pryder hefyd ynghylch mwy o straen ariannol, yn enwedig ar gyfer aelwydydd incwm isel a rhieni sengl. (Sylwch nad yw'r canllawiau diwygiedig yn newid y meini prawf hawliau statudol ar gyfer teithio gan ddysgwyr).

### Canlyniadau cymdeithasol ac amgylcheddol

Mae nifer o sylwadau'n nodi y gallai bwriad y canllawiau i hyrwyddo sero net a theithio cynaliadwy gael ei danseilio oherwydd byddai llai o gludiant i'r ysgol yn golygu mwy o deithiau mewn ceir. Ystyrir bod y newid hwn yn cyfrannu at allyriadau uwch, tagfeydd a risgiau diogelwch o amgylch ysgolion, gan fynd yn groes i nodau amgylcheddol ehangach.

### Cysondeb, eglurder ac atebolrwydd

Mae ymatebwyr yn sôn yn aml am anghysondebau o ran sut mae'r canllawiau'n cael eu dehongli a'u defnyddio ledled Cymru, gan arwain at "loteri cod post" yn y ddarpariaeth cludiant i ddysgwyr. Mae awydd am safonau sylfaenol cliriach, mecanweithiau atebolrwydd cadarn, a phrosesau y gellir eu gorfodi ar gyfer apelio a gwneud iawn.

### Cefnogaeth i addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg ffydd

Mae effaith y canllawiau ar fynediad at ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion ffydd yn thema sy'n codi dro ar ôl tro. Mae ymatebwyr yn nodi y gallai'r rheol tair milltir gael effaith anghymesur ar ddysgwyr sy'n ceisio addysg cyfrwng Cymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd heb fawr o ddarpariaeth. Mae pryderon hefyd ynghylch cymorth trafnidiaeth teg i ysgolion ffydd ac ysgolion nad ydynt yn ysgolion ffydd.

### Llesiant a chynhwysiant dysgwyr

Mae cytundeb eang y dylai canllawiau gweithredol fod yn fwy ymatebol i anghenion dysgwyr agored i niwed, gan gynnwys y rhai ag ADY, anableddau, neu amgylchiadau teuluol cymhleth. Mae ymatebwyr o blaid dull gweithredu sy'n wirioneddol ganolbwyntio ar y plentyn, gyda mewnbwn proffesiynol ac ystyriaethau diogelu yn cael sylw dyledus wrth wneud penderfyniadau.

## C9 — A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynghylch rhan 2 (Asesu ‘llwybr sydd ar gael’ i’r ysgol)?

**Dadansoddiad o'r ymatebion**
O blith 311 o bobl, rhoddodd 152 sylwadau, gan arwain at gyfradd ymateb o oddeutu 49%. Mae hon yn lefel arbennig o gryf o ymgysylltu, sy’n dangos bod y pwnc o asesu ‘llwybrau sydd ar gael’ i’r ysgol yn taro tant â rhanddeiliaid ac yn ennyn cryn ddiddordeb a phryder.

**Themâu allweddol**
Mae’r ymatebion i’r ymgynghoriad yn adlewyrchu ymrwymiad cryf i sicrhau llwybrau diogel, teg a hygyrch i’r ysgol i bob plentyn. Er bod pryderon yn cael eu codi am arferion presennol, mae cyfoeth o adborth adeiladol ac awgrymiadau ymarferol ar gyfer gwella hefyd. Drwy gryfhau gweithdrefnau asesu risg, gwella tryloywder, a blaenoriaethu anghenion dysgwyr agored i niwed, mae ymatebwyr yn awgrymu y gall polisi’r llywodraeth gefnogi teuluoedd yn well a chynnal yr hawl i addysg ddiogel.

### Diogelwch ac addasrwydd llwybrau
Un pryder mawr yw diogelwch llwybrau cerdded, yn enwedig ar gyfer plant iau a’r rheini sydd ag ADY. Mae ymatebwyr yn tynnu sylw at faterion fel:

- Ffyrdd peryglus, diffyg palmentydd, goleuadau gwael, a thraffig sy’n symud yn gyflym.
- Mwy o risgiau yn ystod misoedd y gaeaf oherwydd tywyllwch, tywydd garw a llifogydd.
- Gallai llwybrau y bernir eu bod “ar gael” ar bapur fod yn anaddas yn ymarferol, heb groesfannau diogel na seilwaith digonol.

### Effaith ar blant a theuluoedd
Lleisiodd nifer o ymatebwyr bryderon ynghylch y pwysau corfforol ac emosiynol ar blant sy’n gorfod cerdded yr hyn sy’n cael ei ystyried yn bell iawn i’r ysgol, gyda rhai siwrneiau’n fwy nag awr bob ffordd. Roedd yr ymatebion yn awgrymu y gall y teithiau cerdded estynedig hyn arwain at fwy o orbryder, blinder a llai o allu i ganolbwyntio yn ystod gwersi. Mae gofynion o’r fath hefyd yn rhoi straen sylweddol ar deuluoedd, yn enwedig y rheini sy’n ceisio cydbwyso cyfrifoldebau gwaith neu ofalu. Mynegwyd pryder bod y cyfuniad o’r heriau hyn, yn enwedig yn ystod tywydd gwael, yn cynyddu’r risg o absenoldeb a bod yn hwyr, gan waethygu ymhellach yr anawsterau sy’n wynebu plant a’u teuluoedd.

### Hygyrchedd a chynhwysiant
Mynegwyd pryderon ynghylch cynwysoldeb y broses asesu, yn enwedig ar gyfer dysgwyr anabl a’r rhai ag ADY. Mae ymatebwyr yn nodi:

- Yr angen am asesiadau teithio unigol ac addasiadau rhesymol ar gyfer plant anabl, beth bynnag fo’r pellter.
- Risgiau o ganlyniadau gwahaniaethol os gweithredir rheolau cymhwysedd safonol yn llym.

### Tryloywder, ymgynghori ac apeliadau
Roedd ymatebwyr yn cefnogi cael mwy o dryloywder ac ymgysylltiad drwy gydol y broses asesu, gan bwysleisio pwysigrwydd cyfathrebu clir ynghylch llwybrau wedi’u gwerthuso ac asesiadau risg i rieni ac ysgolion. Gofynnodd rhai ymatebwyr am fecanweithiau i deuluoedd

adolygu a herio penderfyniadau; fodd bynnag, roedd eraill yn argymell cymryd pwyll wrth fabwysiadu polisïau a allai arwain yn anfwriadol at gynnydd mewn heriau diangen i rieni. Roedd rhai'n dadlau dros ymgynghori'n rheolaidd â rhanddeiliaid, fel aseswyr annibynnol a chynrychiolwyr dysgwyr, ac roedd eraill yn mynegi pryder y gallai ymgysylltu o'r fath arwain at fwy o wrthdaro ac o bosibl beryglu gwrthrychedd y broses asesu.

#### Effaith gymunedol ac amgylcheddol

Cafwyd nifer o sylwadau yn dweud bod cael gwared ar gludiant i'r ysgol mewn ardaloedd penodol wedi arwain at gynnydd mewn tagfeydd traffig a llygredd o amgylch ysgolion; wedi tarfu ar gymunedau lleol ac ardaloedd preswyl ac wedi tanseilio ymdrechion i hyrwyddo teithio cynaliadwy a lleihau allyriadau.

#### Eglurder a chysondeb

Mae nifer o ymatebwyr wedi mynegi pryderon ynghylch amwysedd ac anghysondeb y canllawiau. Yn benodol, maent yn nodi diffyg diffiniadau clir ar gyfer termau fel "llwybr sydd ar gael" ac "addasrwydd" sydd wedi arwain at amrywiadau yn y ffordd y mae awdurdodau lleol yn asesu llwybrau ac, o ganlyniad, canfyddiadau o anghydraddoldeb ymysg rhanddeiliaid.

## C10 — Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynghylch rhan 3 (Rheoliadau Gwybodaeth Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009)?

### Dadansoddiad o'r ymatebion

O blith y 311 o ymatebwyr i'r ymgynghoriad, cyflwynodd 63 sylwadau o sylwedd, sy'n cynrychioli cyfradd ymateb o oddeutu 20%. Er bod yr ymgysylltu hwn yn gymharol isel o'i gymharu â chwestiynau eraill, mae'n cynnig trawstoriad gwerthfawr o safbwyntiau.

### Themâu allweddol

Mae'r ymatebion yn adlewyrchu ymrwymiad cryf i sicrhau bod trefniadau teithio i ddysgwyr yn ddiogel, yn deg ac yn cefnogi mynediad at addysg. Er bod pryderon clir am yr heriau presennol, mae'r adborth yn cynnig rhai awgrymiadau ymarferol sy'n canolbwyntio ar atebion.

#### Diogelwch a hygyrchedd cludiant i'r ysgol

Mynegodd nifer sylweddol o ymatebwyr bryderon ynghylch diogelwch ac ymarferoldeb y trefniadau trafnidiaeth presennol, yn enwedig ar gyfer plant sy'n gorfod cerdded yn bell (hyd at dair milltir) i'r ysgol. Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at risgiau sy'n gysylltiedig â llwybrau cerdded anniogel, tywydd garw, traffig trwm, a'r baich corfforol ar blant sy'n cario offer ysgol. Roedd galwadau am asesiadau risg mwy cadarn, diffiniadau cliriach o lwybrau "diogel" ac "addas", ac ystyried ffactorau tymhorol a datblygiadol yn fwy manwl. Pwysleisiodd ymatebwyr fod sicrhau trafnidiaeth ddiogel a hygyrch yn hanfodol i gefnogi presenoldeb a llesiant.

#### Cyfathrebu, gwybodaeth a thryloywder

Cyfeiriodd llawer o'r ymatebion at anghysondebau a diffygion yn y ffordd y mae awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn cyfleu gwybodaeth am deithio gan ddysgwyr. Roedd y materion yn cynnwys iaith gymhleth neu anhygyrch, diffyg diweddariadau amserol, a dim digon o wybodaeth yn cael ei darparu mewn fformatau hygyrch (gan gynnwys Cymraeg a fformatau sy'n addas i blant a phobl ifanc, yn enwedig y rheini ag ADY). Roedd ymatebwyr

yn cefnogi safonau gorfodadwy ar gynnwys, rheoleidd-dra a hygyrchedd gwybodaeth, yn ogystal â phrosesau cliriach ar gyfer apeliadau a chwynion. Roedd awydd cryf am gyfathrebu mewn iaith glir a thryloyw sy'n grymuso teuluoedd i wneud penderfyniadau gwybodus.

#### Tegwch a chynhwysiant

Mynegwyd pryderon ynghylch effaith polisïau cyfredol ar deuluoedd difreintiedig, yn enwedig y rhai ar incwm is, dysgwyr ag ADY, a theuluoedd nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt. Nododd ymatebwyr fod diffyg gwybodaeth a thrafnidiaeth hygyrch yn gallu effeithio'n anghymesur ar y grwpiau hyn, gan danseilio mynediad cyfartal at addysg o bosibl. Roedd galwadau am gymorth trafnidiaeth dewisol i deuluoedd sydd ychydig y tu allan i'r trothwyon hawliau ac am ganllawiau cliriach ar gefnogi dysgwyr agored i niwed.

#### Rhoi polisïau ar waith ac arferion awdurdodau lleol

Roedd nifer o sylwadau'n tynnu sylw at amrywioldeb yn y ffordd y mae awdurdodau lleol yn dehongli'r canllawiau ac yn eu rhoi ar waith, gan arwain at ganfyddiad o annhegwch a dryswch. Awgrymodd ymatebwyr fod angen fframweithiau cliriach a mecanweithiau atebolrwydd i sicrhau bod pwerau dewisol yn cael eu defnyddio'n gyson, ymgynghori amserol ar newidiadau polisi, ac asesiadau llwybrau effeithiol. Argymhellodd rhai, lle nad yw apeliadau wedi'u datrys cyn dechrau'r tymor, y dylai trefniadau trafnidiaeth blaenorol barhau i fod ar waith er mwyn osgoi tarfu.

#### Effaith ar deuluoedd a chymunedau

Disgrifiodd ymatebwyr effeithiau ehangach newidiadau i bolisïau trafnidiaeth, gan gynnwys mwy o dagfeydd traffig, tarfu ar arferion teuluol, a mwy o straen ar rieni a gofalwyr. Roedd pryderon y gallai dileu neu leihau cludiant i'r ysgol arwain at lai o bresenoldeb, llai o fynediad at addysg cyfrwng Cymraeg, ac effeithiau negyddol ar gydlyniant cymunedol. Nododd rhai ymatebwyr hefyd yr anghysondeb rhwng y newidiadau hyn a nodau ehangach fel lleihau allyriadau a chefnogi teithio llesol.

## C11 — A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynghylch rhan 4 (Diogelwch ar gludiant i ddysgwyr)?

### Dadansoddiad o'r ymatebion

Cafwyd 102 o sylwadau allan o gyfanswm o 311 o ymatebion i gwestiwn yr ymgynghoriad ar Ran 4 - diogelwch ar gludiant i ddysgwyr, sy'n dangos llawer o ymgysylltu a phryder ymysg rhanddeiliaid ynghylch diogelwch cludiant i ddysgwyr. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo'n ddigon cryf am y mater i fynegi profiadau, awgrymiadau a beirniadaethau penodol, gan adlewyrchu cymhlethdod ac effaith bersonol y newidiadau canfyddedig.

### Themâu allweddol

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn adlewyrchu ymrwymiad cryf ymysg ymatebwyr i sicrhau'r safonau diogelwch uchaf posibl ar gyfer cludiant i ddysgwyr.

#### Pellteroedd cerdded a diogelwch llwybrau

Mynegodd llawer o ymatebwyr bryderon difrifol bod disgwyl i blant gerdded cryn bellter i'r ysgol, gan gyfeirio'n aml at y trothwy tair milltir. Roeddent yn tynnu sylw at amrywiaeth o faterion diogelwch, fel llwybrau cerdded heb oleuadau, heb balmentydd, neu lle byddai angen croesi ffyrdd prysur. Mae'r risgiau hyn yn waeth yn ystod y gaeaf, gyda thywyllwch, tywydd gwael a gwelededd gwael yn peryglu diogelwch ymhellach. Pwysleisiodd ymatebwyr

hefyd yr effaith gorfforol ac emosiynol ar blant, gan gynnwys blinder, gorbryder, a llai o allu i gymryd rhan lawn mewn dysgu ar ôl teithiau hir a heriol. Mynegwyd pryder penodol am grwpiau agored i niwed, gan gynnwys merched, dysgwyr ag ADY, a'r rheini sy'n byw mewn lleoliadau gwledig neu ynysig.

**Effaith lleihau neu gael gwared ar ddarpariaeth cludiant ysgol**
Tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith bod lleihau neu gael gwared ar wasanaethau penodol ar gyfer cludiant i'r ysgol yn eu hardaloedd wedi arwain at gynnydd mewn teithiau mewn ceir. Mae hyn, yn ei dro, wedi cyfrannu at fwy o dagfeydd traffig, mwy o lygredd, a mwy o risgiau diogelwch yng nghyffiniau ysgolion. Mae'r newid hwn wedi rhoi straen ychwanegol ar rieni a gofalwyr, gyda llawer ohonynt wedi gorfod newid eu hymrwymiadau gwaith neu wneud trefniadau eraill, yn aml ar gost bersonol neu ariannol sylweddol. Mae pryder cynyddol hefyd, oherwydd yr anymarferoldeb neu'r peryglon canfyddedig sy'n gysylltiedig â'r daith i'r ysgol, y gallai rhai plant fod yn absennol yn amlach.

**Safonau diogelwch a gorfodaeth**
Mae galw cryf am safonau diogelwch cliriach y gellir eu gorfodi ar gyfer pob math o gludiant i ddysgwyr, gan gynnwys:

- Asesiadau risg cyson o lwybrau cerdded a thrafnidiaeth, yn enwedig yn ystod adegau prysur a thywydd garw.
- Archwiliadau rheolaidd, trefniadau cadarn ar gyfer fetio contractwyr, a phrotocolau clir ar gyfer diogelu, adrodd am ddigwyddiadau ac apeliadau.
- Yr angen am wregysau diogelwch ar bob bws a ddefnyddir fel cludiant i ddysgwyr, nid bysiau ysgol pwrpasol yn unig.

**Cymorth i ddysgwyr agored i niwed a dysgwyr ag ADY**
Nododd ymatebwyr ddiffygion nodedig yn y canllawiau presennol o ran cefnogi plant agored i niwed a'r rheini sydd ag ADY. Pwysleisiwyd yr angen am fanylion gweithredol mwy cynhwysfawr, yn enwedig o ran cydweithio â thimau ADY, darparu hyfforddiant teithio, a chymorth wedi'i deilwra i ddysgwyr sy'n wynebu heriau emosiynol, synhwyraidd neu wybyddol. Ystyriwyd bod darparu cynorthwywyr teithwyr neu hebryngwyr hyfforddedig yn hanfodol, yn enwedig i blant sydd â gofynion meddygol neu ymddygiad cymhleth. Ar ben hynny, mynegwyd pryderon ynghylch diffyg cyfrifoldebau a gweithdrefnau wedi'u diffinio'n glir ar gyfer delio ag argyfyngau neu roi meddyginiaeth.

**Cyfathrebu, ymgynghori a llais y dysgwr**
Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at yr angen am gyfathrebu tryloyw â theuluoedd ynghylch canllawiau diogelwch, gwerthuso llwybrau, ac unrhyw newidiadau i wasanaethau trafnidiaeth. Roeddent hefyd yn tanlinellu pwysigrwydd sefydlu sianeli effeithiol i rieni a dysgwyr roi adborth, ynghyd â gweithdrefnau clir ar gyfer rhoi gwybod am bryderon diogelwch a'u datrys. Ar ben hynny, roedd pwyslais cryf ar yr angen i gynnal ymgynghoriadau ystyrlon gyda'r cymunedau yr effeithir arnynt, yn enwedig pan fydd newidiadau i'r ddarpariaeth trafnidiaeth yn cael eu hystyried.

**Adborth cadarnhaol ac awgrymiadau adeiladol**
Er bod y rhan fwyaf o'r sylwadau'n codi pryderon, roedd rhai ymatebwyr yn cydnabod agweddau cadarnhaol y canllawiau, fel cynnwys hebryngwyr teithio ac eglurder ynghylch rhai gofynion cyfreithiol. Dyma rai o'r awgrymiadau ar gyfer gwella:

- Adolygu diogelwch llwybrau bob tymor (er enghraifft, ystyried tywyllwch y gaeaf).

- Hyfforddiant gwell i yrwyr a hebryngwyr ar ddiogelu, rheoli ymddygiad, defnyddio giatiau cefn/clampiau.

Mwy o hyblygrwydd ac unigoliaeth mewn penderfyniadau ynghylch trafnidiaeth, yn enwedig ar gyfer dysgwyr ADY.

## C12 — A ydych chi'n cytuno bod y diweddariad i'r canllawiau yn glir ac yn hawdd ei ddeall?

**Dadansoddiad o'r Ymateb**

| Grŵp | Cyfanswm yr ymatebion | Cytuno (%) | Anghytuno (%) | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno (%) | Nifer y sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyffredinol** | 311 | 9.3 | 67.2 | 17 | 68 |
| **Ffocws** | 81 | 21 | 46.9 | 16 | 33 |

Mae'r ymatebion cyffredinol (311) yn dangos bod 9.3% o ymatebwyr yn cytuno, a bod mwyafrif clir, 67.2%, yn anghytuno a 17% ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Mae hyn yn dangos nad yw'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn credu bod y canllawiau sydd wedi'u diweddaru yn glir nac yn hawdd eu deall.

Mae'r grŵp ffocws (81 o ymatebwyr) yn cyflwyno ymateb mwy cadarnhaol, gydag 21% yn cytuno, 46.9% yn anghytuno, ac 16% yn aros yn niwtral. Mae hyn yn awgrymu, er bod y dosbarthiad ychydig yn llai pegynol, bod pryderon ynghylch eglurder yn dal i fod yn yr is-grŵp hwn.

Mae nifer y sylwadau a ddaeth i law hefyd yn wahanol, gyda 68 o sylwadau gan y grŵp cyffredinol o'i gymharu â 33 gan y grŵp ffocws, gan adlewyrchu mwy o ymgysylltu gan y grŵp ffocws, sy'n rhoi cipolwg ansoddol gwerthfawr ar y rhesymau y tu ôl i'r safbwyntiau hyn.

## C13 — Beth yn eich barn chi fyddai effeithiau tebygol y canllawiau drafft ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig yn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau positif? Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?

**Dadansoddiad o'r Ymateb**

Ymatebodd 145 o'r 311 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, sy'n awgrymu ymdeimlad cryf o ymgysylltu.

Mae nifer ac amrywiaeth y sylwadau ar gyfer cwestiwn 13 a chwestiwn 14 yn adlewyrchu sbectrwm eang o safbwyntiau - yn amrywio o eiriolaeth gref dros fwy o gefnogaeth i addysg cyfrwng Cymraeg, i bryderon ynghylch tegwch, rhwystrau ymarferol, a'r angen am bolisi clir a chyson.

Mae nifer yr ymatebion yn nodi rhai themâu allweddol ac argymhellion adeiladol. Mae'n dangos bod y Gymraeg yn parhau i fod yn ystyriaeth ganolog mewn trafodaethau polisi am gludiant i'r ysgol, a bod cyfran sylweddol o'r gymuned yn debygol o graffu'n agos ar unrhyw newidiadau i ganllawiau.

**Themâu allweddol**

### Mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg

Mynegodd cyfran sylweddol o ymatebwyr bryder y gallai'r canllawiau drafft, yn enwedig newidiadau canfyddedig i'r hawl i gael cludiant i'r ysgol (fel pellteroedd cerdded hirach a llai o drafnidiaeth yn cael ei darparu), leihau mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg. Mae llawer o deuluoedd yn dibynnu ar gludiant i'r ysgol i gyrraedd ysgolion cyfrwng Cymraeg, sydd yn aml ymhellach i ffwrdd na'r dewisiadau cyfrwng Saesneg. Heb drafnidiaeth ddigonol, mae risg y bydd rhieni'n dewis ysgolion cyfrwng Saesneg agosach, a allai arwain at ostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n cofrestru mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a, thrwy hynny, gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

### Y potensial ar gyfer triniaeth anghyfartal

Amlygodd sawl ymateb y risg y gallai'r canllawiau drafft drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn anfwriadol. Y rheswm pennaf am hyn yw bod dosbarthiad ysgolion cyfrwng Cymraeg yn llai dwys, sy'n golygu eu bod yn llai hygyrch heb gymorth trafnidiaeth pwrpasol. Pwysleisiodd ymatebwyr y dylai polisïau sicrhau mynediad cyfartal, fel nad yw dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn dod yn anfantais oherwydd rhwystrau logistaidd neu ariannol.

### Effaith ar ddewis rhieni a chydlyniant cymunedol

Mynegwyd pryderon y gallai'r newidiadau arfaethedig gyfyngu ar y dewis gwirioneddol i rieni, yn enwedig i'r rheini sy'n dymuno i'w plant gael addysg cyfrwng Cymraeg. Mae risg dybiedig y gallai'r canllawiau danseilio ymdrechion i hyrwyddo'r Gymraeg yn anfwriadol, yn enwedig mewn cymunedau gwledig neu ddifreintiedig lle mae opsiynau amgen yn gyfyngedig.

### Cyfleoedd ar gyfer newid cadarnhaol

Er gwaethaf y pryderon hyn, cynigiodd llawer o ymatebwyr awgrymiadau adeiladol ar sut gellid cryfhau'r canllawiau i gefnogi'r Gymraeg:

- Gwarantu cludiant i'r ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf, beth bynnag fo'r pellter, er mwyn sicrhau mynediad cyfartal.
- Cyllid wedi'i neilltuo neu safonau cenedlaethol ar gyfer darpariaeth trafnidiaeth cyfrwng Cymraeg i sicrhau cysondeb ar draws awdurdodau lleol.
- Asesiadau cryfach o'r effaith ar yr iaith mewn penderfyniadau polisi trafnidiaeth, gan sicrhau bod yr effeithiau ar y Gymraeg yn cael eu hystyried a'u lliniaru'n weithredol.
- Cyfathrebu ac ymgynghori'n gliriach â rhanddeiliaid, gan gynnwys teuluoedd a grwpiau eiriolaeth, i sicrhau bod polisïau'n adlewyrchu anghenion a dyheadau'r gymuned.

### Cydnabod arferion da cyfredol

Roedd rhai ymatebwyr yn cydnabod bod awdurdodau lleol, mewn rhai ardaloedd, eisoes yn darparu cludiant am ddim i ysgolion cyfrwng Cymraeg ac y gallai'r canllawiau diwygiedig helpu i egluro ac atgyfnerthu'r arferion cadarnhaol hyn. Mae cyfle i adeiladu ar yr enghreifftiau hyn i sicrhau bod arferion gorau'n cael eu rhannu a'u mabwysiadu'n ehangach.

### Cydbwyso hyrwyddo iaith â blaenoriaethau eraill

Awgrymodd lleiafrif o'r ymatebion y dylid parhau i ganolbwyntio ar ddiogelwch plant, mynediad addysgol, a dewis rhieni, yn hytrach na pholisi iaith yn unig. Fodd bynnag, hyd yn oed ymhlith y rhain, cydnabuwyd bod mynediad cyfartal at addysg yn egwyddor sylfaenol.

## C14 — Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r canllawiau er mwyn:

## • cael effeithiau positif neu effeithiau mwy positif ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu

## • liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

### Dadansoddiad o'r ymatebion

O blith cyfanswm o 311 o ymatebwyr i'r ymgynghoriad, gwnaeth 92 sylwadau penodol ar y cwestiwn ynghylch a fyddai modd ffurfio neu addasu'r canllawiau drafft i gael effeithiau positif ar y Gymraeg, neu i liniaru unrhyw effeithiau negyddol. Mae hyn yn cynrychioli oddeutu 30% o'r holl gyfranogwyr.

Mae'r gyfradd ymateb hon yn dangos llawer o ymgysylltu â mater darpariaeth Gymraeg.

### Themâu allweddol

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn adlewyrchu awydd cryf i ganllawiau teithio gan ddysgwyr gefnogi'r Gymraeg yn weithredol, chwalu rhwystrau i fynediad, a sicrhau nad yw addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

### Polisi trafnidiaeth fel cyfrwng i hyrwyddo'r Gymraeg

Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at y ffaith y gall polisi teithio gan ddysgwyr chwarae rhan ganolog yn y gwaith o gefnogi'r Gymraeg. Awgrymodd nifer y byddai ymestyn trafnidiaeth am ddim neu drafnidiaeth â chymhorthdal i ysgolion cyfrwng Cymraeg—yn enwedig i'r rheini sy'n byw yn yr ardal waharddedig bresennol o dair milltir—yn dileu rhwystrau ac yn annog teuluoedd i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg. Ystyrir bod hyn yn hanfodol ar gyfer caffael iaith a chadwraeth ddiwylliannol. Nodwyd bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol eisoes yn cynnig cludiant am ddim i'r ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf.

### Mynediad teg ac osgoi anfantais

Thema a gododd dro ar ôl tro oedd yr angen i sicrhau nad yw dysgwyr cyfrwng Cymraeg o dan anfantais o'u cymharu â'u cyfoedion cyfrwng Saesneg. Galwodd ymatebwyr am fesurau diogelu penodol yn y canllawiau i warantu cludiant i'r ysgol cyfrwng Cymraeg addas agosaf, beth bynnag fo'r pellter, ac i ddileu meini prawf cyfyngol a allai atal mynediad. Pwysleisiwyd cysondeb ar draws awdurdodau lleol i osgoi "loteri cod post". Er gwaethaf yr argraffiadau, nodwyd bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol eisoes yn cynnig cludiant am ddim i'r ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf.

### Effaith pellter a daearyddiaeth

Nododd ymatebwyr fod pellteroedd teithio hirach a thirwedd heriol yn gallu effeithio'n anghymesur ar fynediad at addysg cyfrwng Cymraeg. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys adfer amseroedd teithio hiraf, cyflwyno amser cerdded hiraf, a sicrhau bod topograffi'n cael ei ystyried yn briodol mewn penderfyniadau trafnidiaeth.

**Rhwystrau ariannol a thegwch cymdeithasol**
Codwyd pryderon ynghylch y goblygiadau ariannol i deuluoedd sydd angen talu am gludiant i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Roedd ymatebwyr yn dadlau na ddylai cost fod yn rhwystr rhag cael mynediad at addysg yn y Gymraeg, ac y gallai cyllid cenedlaethol neu adnoddau wedi'u neilltuo fod yn angenrheidiol i gefnogi mynediad teg.

**Hyrwyddo ac amlygrwydd addysg cyfrwng Cymraeg**
Roedd nifer o ymatebion yn dadlau dros ddull mwy rhagweithiol o hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg, y tu hwnt i sicrhau cydraddoldeb â'r Saesneg yn unig. Mae hyn yn cynnwys ymgorffori hyrwyddo'r Gymraeg mewn polisïau teithio, cyfathrebu'n glir â theuluoedd, a sicrhau bod y canllawiau'n cyd-fynd â strategaethau iaith cenedlaethol fel Cymraeg 2050 a Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

**Ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid**
Roedd galw am ymgysylltu ystyrlon â grwpiau eiriolaeth, ysgolion a theuluoedd Cymraeg wrth ddatblygu ac adolygu polisïau awdurdodau lleol. Awgrymodd ymatebwyr y dylid cryfhau gofynion ymgynghori i sicrhau bod safbwyntiau amrywiol yn cael eu hystyried.

**Cydbwyso'r gost a'r ymrwymiad i'r iaith Gymraeg**
Tra bo llawer o ymatebwyr yn cydnabod cyfyngiadau cyllidebol, roeddent hefyd yn annog y llywodraeth i gydbwyso ystyriaethau cost â'i hymrwymiad i'r Gymraeg. Roeddent yn pwysleisio na ddylai newidiadau polisi danseilio ymdrechion i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg na hygyrchedd addysg cyfrwng Cymraeg.

## C15 — Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol.  Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch y blwch isod i'w nodi:

**Dadansoddiad o'r ymatebion**
O blith y 311 o ymatebwyr i'r ymgynghoriad, dewisodd 98 (oddeutu 32%) roi sylwadau ychwanegol ar faterion nad oeddent yn cael sylw penodol ym mhrif gwestiynau'r ymgynghoriad. Mae hyn yn gyfran sylweddol, sy'n dangos llawer iawn o ymgysylltu ac awydd cryf ymysg ymatebwyr i sicrhau bod eu pryderon a'u safbwyntiau ehangach yn cael eu clywed.

Mae'r lefel hon o ymatebion yn yr adran benagored yn tynnu sylw at gymhlethdod y pwnc a'r amrywiaeth o brofiadau a safbwyntiau.

Mae nifer o'r themâu allweddol yn yr adran hon yn adlewyrchu'r themâu allweddol a ddeilliodd o'r ymarfer ymgynghori cyfan.

**Themâu allweddol**

**Diogelwch ac addasrwydd llwybrau**
Mae un o'r prif bryderon a godwyd yn ymwneud â diogelwch llwybrau cerdded i'r ysgol, yn enwedig ar gyfer disgyblion iau a'r rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Tynnodd ymatebwyr sylw at nifer o beryglon, gan gynnwys ffyrdd peryglus, diffyg palmentydd, dim digon o oleuadau, a thraffig sy'n symud yn gyflym. Nodwyd hefyd bod y risgiau hyn yn cynyddu yn ystod misoedd y gaeaf, pan fydd hi'n dywyll, a phan fydd tywydd garw a llifogydd yn fwy cyffredin. Ar ben hynny, mae anghysondeb rhwng llwybrau sy'n cael eu

dosbarthu'n swyddogol fel rhai "sydd ar gael" a'u haddasrwydd ymarferol mewn gwirionedd, gyda rhai heb groesfannau diogel neu seilwaith digonol i sicrhau diogelwch plant.

### Tegwch a hygyrchedd

Codwyd pryderon ynghylch effaith newidiadau i drafnidiaeth ar rieni sy'n gweithio, dysgwyr ag ADY, a'r rhai sydd angen addysg cyfrwng Cymraeg. Roedd y prif bwyntiau yn cynnwys:

- Yr angen am seddi dros dro neu seddi lle mae rhieni'n talu lle mae hynny'n bosibl.
- Galwadau am ddarpariaethau ADY penodol a chyd-fynd â CCUHP.
- Sicrhau nad yw newidiadau'n effeithio'n anghymesur ar deuluoedd nad ydynt yn gallu addasu amserlenni gwaith na'r rheini mewn ardaloedd gwledig.

### Cyfathrebu a thryloywder

Tynnodd ymatebwyr sylw at yr angen hollbwysig am dryloywder yn y broses o wneud penderfyniadau. Roeddent yn argymell cyhoeddi archwiliadau llwybrau ac asesiadau risg cyn unrhyw newidiadau, ochr yn ochr â darparu gwybodaeth glir a hygyrch i rieni, gofalwyr ac ysgolion. Ar ben hynny, roeddent yn pwysleisio pwysigrwydd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r holl randdeiliaid am y rhesymau y tu ôl i benderfyniadau a'r camau dilynol i'w cymryd.

### Gweithredu'n ymarferol a chysoni polisïau

Roedd llawer o ddiddordeb mewn rhoi atebion ymarferol ar waith a sefydlu polisïau clir, gan gynnwys lleihau trothwyon pellter ac amseroedd teithio, gan ystyried cap o 60 munud lle bo hynny'n berthnasol. Roedd maes ffocws arall yn cynnwys datrys pryderon trawsffiniol, yn enwedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a dysgwyr sy'n cael eu lleoli y tu allan i'w hardal leol. Yn ogystal, pwysleisiwyd y dylai canllawiau ymgorffori newidiadau deddfwriaethol ac adlewyrchu arferion gorau ledled Cymru.

### Cyd-destun lleol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid

Roedd llawer o'r ymatebion yn cyfeirio at newidiadau penodol i awdurdodau lleol (yn enwedig yn Rhondda Cynon Taf) ac yn galw am y canlynol:

- Mwy o ymgysylltu ag awdurdodau lleol, ysgolion a darparwyr trafnidiaeth.
- Cyfleoedd parhaus i gael adborth a chymryd rhan yn y camau gweithredu a gwerthuso.

## Y camau nesaf

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella'r ddarpariaeth teithio gan ddysgwyr yn barhaus. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried yn ofalus yr holl ymatebion a ddaw i law yn ystod y broses ymgynghori.

Mae'r ymatebion yn amlinellu cymhlethdodau cyflawni nodau diwygio'r canllawiau.

Mae awdurdodau lleol, a phartneriaid cyflenwi allweddol eraill, wedi bod yn aros i ganllawiau diwygiedig gael eu cyhoeddi. Felly, byddwn yn gwneud diwygiadau angenrheidiol sy'n seiliedig ar ffeithiau i'r canllawiau drafft, ar sail yr adborth a gafwyd, er mwyn gwella eglurder ac effeithiolrwydd.

Byddwn yn ceisio cyhoeddi'r canllawiau wedi'u diweddaru cyn diwedd tymor y Senedd hon er mwyn rhoi digon o amser i awdurdodau lleol adolygu eu polisïau lleol eu hunain i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r canllawiau newydd.

Rhaid pwysleisio nad yw'r canllawiau diwygiedig hyn yn newid y meini prawf hawliau statudol y mae awdurdodau lleol eisoes yn gweithio tuag atynt.

Gall y sylwadau o'r ymarfer ymgynghori hwn, ynghyd â gweithgarwch ymgysylltu arall sydd wedi digwydd, fod yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer Llywodraeth newydd i Gymru os yw am wneud newidiadau pellach yn y maes polisi hwn.

# Atodiad A – Rhestr o sefydliadau a ymatebodd

Roedd y sefydliadau canlynol yn fodlon i'w henw gael ei briodoli i ymateb i'r ymgynghoriad yn hytrach na bod yn ddienw. Nid ydym wedi cyhoeddi enwau unigolion, ond mae'r holl sylwadau wedi cael eu hadolygu a'u dadansoddi.

**Sefydliadau**

Cymdeithas Swyddogion Cydgysylltu Trafnidiaeth Cymru
Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig
Cerebra
Cyngor Sir Ceredigion
Yr Eglwys yng Nghymru
Comisiynydd Plant Cymru
Colegau Cymru
Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Gwynedd
Llywodraethwyr Llanfair Llythynwg
Anabledd Dysgu Cymru
Cyngor Cymuned Matharn
Ysgol Uwchradd Mair Ddihalog
Y Gymdeithas Seciwlar Genedlaethol
Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot
NEU Cymru
Plaid Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Grŵp Ymgyrch Achub Trafnidiaeth Ysgolion Rhondda Cynon Taf
RhAG
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru
Ysgol Maes Y Coed
Dyneiddwyr Cymru
Comisiynydd y Gymraeg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam